Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

# Pencampwyr Rhywogaethau

Sefyll dros Natur yn y Senedd

## Pwy yw'r Pencampwyr?

Pâl yr Iwerydd - Paul Davies
Morwennol y Gogledd - Hannah Blythyn
Heulgi - Luke Fletcher
Chwilen Olew Ddu - Rebecca Evans
Dolffin Trwyn Potel - Joyce Watson
Tegeirian Llydanwyrdd- Carolyn Thomas
Brân Goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Cliradain Gymreig - Mabon ap Gwynfor
Dolffin Cyffredin - Sam Rowlands
Llyffant Dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Peredur Owen Griffiths
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn Rafftio'r Gors Galch - Sioned Williams
Morlo Llwyd - Sam Kurtz
Llamhidydd yr Harbwr - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Y Fritheg Frown - Jane Hutt
Yr Ystlum Pedol Lleiaf - Lesley Griffiths
Wystrys Brodorol - Julie James
Troellwr Mawr - Vikki Howells
Brith Perlog - Russell George
Bele'r Coed - Eluned Morgan
Môr-Wyntyll Pinc - Jane Dodds
Y Wiwer Goch - Darren Millar
Yr Eog - Huw Irranca-Davies

## COP 15: Beth y cytunodd gwledydd arno ar natur?

Aeth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd i Montreal ym mis Rhagfyr i drafod sut rydyn ni'n gwrthdroi'r dirywiad rhyngwladol mewn bioamrywiaeth.

**Gan Liz Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru**




Cytunodd cynhadledd COP, a gafodd ei ohirio (15fed Cynhadledd y Pleidiau) ddêl ryngwladol hanesyddol dros natur, a oedd yn cynnwys ymrwymiadau byd-eang i:

- Warchod o leiaf 30% o'n tir a'n cefnforoedd erbyn 2030, sy'n cael ei alw hefyd yn darged '30 x 30'
- Lleihau colli ardaloedd ac ecosystemau o bwysigrwydd bioamrywiaeth uchel i 'bron dim'
- Torri'n hanner maetholion gormodol a niweidiol, ac felly'r risg gyffredinol a achosir gan blaladdwyr a chemegau
- Dileu neu ddiwygio cymorthdaliadau sy'n niweidio bioamrywiaeth yn raddol, tra'n cynyddu cymhellion positif sy'n gwarchod neu'n adfer natur, neu'n annog defnydd cynaliadwy
- Erbyn 2030, cynnull o leiaf $200bn y flwyddyn o gyllid sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus a phreifat
- Cynyddu'r llif cyllid o wledydd datblygedig i wledydd sy'n datblygu, i'w helpu i bontio i economïau cynaliadwy

## Pwy yw'r Pencampwyr?

Llysywen Dywod- Llŷr Gruffydd
Y Siwin - Cefin Campbell
Hwyaden yr Eithin - Jayne Bryant
Y Gardwenynen Feinlais - Delyth Jewell
Y Glesyn Bach - Mike Hedges
Drudwy - Vaughan Gething
Gwennol Ddu - Jenny Rathbone
Llinos y Mynydd- Sian Gwenllian
Llygoden y Dŵr - John Griffiths
Madarch Cap Cwyr.- Julie Morgan
Cleren Fai Felen - Natasha Asghar
Bras Melyn - Laura Anne Jones

- Atal cyflwyno rhywogaethau ymledol, sy'n niweidio natur, yn ei hanner
- Torri gwastraff bwyd byd-eang yn ei hanner a lleihau gor-ddefnydd a chynhyrchu rhagor o wastraff diangen
- Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau mawr a sefydliadau ariannol fonitro, asesu a datgelu eu heffaith ar fioamrywiaeth drwy gydol eu gweithrediadau, cadwyni cyflenwi a phortffolios

Yr hyn sy'n allweddol fydd gweithredu'r ymrwymiadau, a sut mae pob gwlad yn eu hymgorffori yn eu polisi a'u deddfwriaeth o ddydd i ddydd. Mae'r DU yn Aelod-Wladwriaeth, felly'r un sy'n gorfod adrodd yn ôl i'r Cenhedloedd Unedig yn y dyfodol ar gynnydd, ond gallent neilltuo'r rhain i 'gynlluniau bioamrywiaeth' yn unig. Rydym yn falch o weld, yng Nghymru, bod y Gweinidog eisoes wedi ymrwymo yn y Senedd i dargedau natur statudol, mwy o fuddsoddiad mewn atebion sy'n seiliedig ar natur, a – yn hollbwysig i ni ar ôl gadael yr UE - swyddfa diogelu'r amgylchedd llawn i gymryd lle'r Asesydd Dros Dro.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer llywodraethu da a'r bwlch sydd wedi'i adael o ran goruchwylio. Er bod Lloegr a'r Alban wedi sefydlu eu cyrff

| 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|
| TARGEDAU NATUR | ATEBION SY'N SEILIEDIG AR NATUR | LLYWODRAETHU |

**Y tair elfen allweddol i wrthdroi colledion bioamrywiaeth yng Nghymru**

cyfatebol ac eisoes yn weithredol, mae ein trefniadau yn parhau i fod yn rhai 'dros dro'. Edrychwn ymlaen at weld deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei chyflwyno, cyn diwedd y tymor hwn yn 2026, i ymgorffori targedau natur a llywodraethu amgylcheddol.

*Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau COP perthnasol ar y dudalen hon neu mewn iaith mwy hygyrch ar dudalen Twitter Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig.*



# Ar hyd a lled Gogledd Cymru gyda'r Tegeirianau Llydanwyrdd

**Gan Lizzie Wilberforce, Plantlife Cymru**

Mae'n bleser gan Plantlife Cymru weithio gyda Carolyn Thomas, AS Gogledd Cymru, fel Pencampwr y Tegeirian Llydanwyrdd newydd. Mae Cymru yn gartref i ddwy rywogaeth o degeirian llydanwyrdd; y Tegeirian Llydanwyrdd, sydd bellach wedi'i ddosbarthu fel 'Dan Beth Bygythiad'ar Restr Ddata Coch Planhigion Fasgwlaidd , tra bod y Tegeirian Llydanwyrdd Bach mewn mwy o berygl ac wedi'i ddosbarthu fel 'Dan Fygythiad'.



Ym mis Gorffennaf, ymwelodd Carolyn a'i chynorthwyydd, Dan Rose, â gwarchodfa natur Caeau Tan y Bwlch ynghyd â staff Plantlife Lizzie Wilberforce, Robbie Blackhall-Miles a Meg Griffiths, a staff Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Adrian Lloyd-Jones a Rob Booth.

Mae Caeau Tan y Bwlch yn safle Tegeirian Llydanwyrdd anhygoel sy'n eiddo i Plantlife ac yn cael ei reoli ar ein rhan gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae'r dolydd gwair SoDdGA sy'n llawn rhywogaethau ar lethrau serth Clynnog, ac yn ystod y broses flynyddol o gyfri'r Tegeirian Llydanwyrdd, gwelwyd dros 6,000 fis Mehefin yma. Roedden ni'n ffodus i fod yn ymweld ar frig cyfnod blodeuo tegeirianau, cyn y torri gwair blynyddol. Gwelsom nifer o degeirianau ar y dydd, yn ogystal â'r llu o blanhigion blodeuol ysblennydd eraill sy'n frith yn y warchodfa natur ryfeddol hon o ganlyniad i'r ffordd sympathetig y mae'n cael ei rheoli.

Roedd ymweld â'r safle yn gyfle i ni drafod y tegeirianau yn benodol, a beth mae eu statws yn ei ddweud wrthym am newid defnydd tir yng Nghymru. Nid yn unig y mae'r rhywogaethau hyn bellach yn brin ynddynt eu hunain, ond maent hefyd yn gynefinoedd diflanedig a oedd unwaith yn gyffredin – yn enwedig porfeydd parhaol llawn rhywogaethau, dolydd gwair traddodiadol (gyda rhai olion bellach ar ymylon ffyrdd) a choetiroedd hynafol.

Roedd yn gyfle gwych i drafod eu hanghenion cadwraeth a'r cyfleoedd i ni gydweithio i newid eu tynged ar draws Cymru. Yn uchel ar yr agenda oedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, a sut gallwn wneud yn siŵr ei fod yn cynnig llwybr gwybodus, gwerth chweil a phositif i ffermwyr er mwyn gwarchod, cynnal ac adfer cynefinoedd llawn rhywogaethau. Buom hefyd yn trafod yr angen am gydnabyddiaeth fwy ffurfiol i'n dolydd hynafol unigryw, a phwysigrwydd arbenigedd ecolegol wrth wneud penderfyniadau rheoli tir yn fwy cyffredinol. Roedd yn ddefnyddiol iawn clywed wrth Carolyn am sut gallai'r datblygiadau diweddaraf yn y Senedd gynnig cyfleoedd i gefnogi newidiadau positif o'r fath.

Diolch o galon iddi am ymgymryd â'r rôl - edrychwn ymlaen at gydweithio i ddod â'r rhywogaeth eiconig hon a'i chynefinoedd o laswelltir yn ôl i gefn gwlad Cymru.



# Sut gall y cynllun ffermio newydd helpu i adfywio rhywogaethau?

## Mae'r RSPB yn edrych ymlaen at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd wrth i'r Bil Amaethyddiaeth fynd drwy'r Senedd.

**Gan Hannah Woodall & Sian Shakespear, RSPB Cymru**

Bydd y Bil Amaethyddiaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) yn disodli degawdau o bolisïau amaethyddol sydd wedi annog diwydiannu ar y dirwedd. Mae gan Gymru y cyfle unwaith mewn oes hwn i sicrhau bod polisi amaethyddol Cymru yn y dyfodol yn perfformio fel fframwaith i ffermwyr a rheolwyr tir eraill ddefnyddio arian cyhoeddus i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a darparu ar gyfer rhywogaethau.

Mae ffermio yn cwmpasu tua 90% o Gymru ac mae polisïau amaethyddol hanesyddol wedi cyfrannu'n anfwriadol at golli rhywogaethau yng Nghymru. Yn ein hoes ni, mae bron i hanner ein hadar tir fferm, mamaliaid, amffibiaid, pryfed ac infertebratau wedi diflannu, a bellach, mae 1 ymhob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu. Rydyn ni angen ffermio i gynhyrchu ein bwyd, ond mae ei angen hefyd i ofalu am yr ecosystemau, y mae rhywogaethau, ninnau a chenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu arnynt. Nid yn unig y gallwn ddatrys y dirywiad trychinebus hyn ym myd natur, mae'n rhaid i ni.

Drwy fabwysiadu cyfran o'r fferm fel cynefin, bydd gan natur ymateb positif. Felly, mae'n galonogol gweld bod cynnal a chreu cynefinoedd yn cael ei gynnwys o fewn y CFfC ar lefel gyffredinol. Bydd sicrhau bod gennym gymysgedd o'r cynefin iawn yn y llefydd iawn ar y fferm yn gwneud gwahaniaeth sylweddol a phositif i natur, hinsawdd a gwytnwch ffermio yng Nghymru.

Serch hynny, os ydym am adfer rhywogaethau prin a bregus fel y Gylfinir, Llygoden y Dŵr a'r Gliradain Gymreig, yr hyn sy'n allweddol i gyflawni'r amcanion hyn fydd sicrhau y gall ffermwyr gydweithio. Yn hynny o beth, rhaid i'r polisïau amaethyddol sicrhau bod ffermwyr yn cael eu galluogi i gydweithio, a chael cyngor a chymorth priodol, parhaus i reoli cynefinoedd, yn dirweddol fel arfer. Mae'n hanfodol bod Aelodau o'r Senedd yn parhau i weld y gwerth y gall y math hwn o weithio ei gyflawni o fewn tirwedd a gall felly sicrhau bod gan Gymru Fil Amaethyddiaeth a Chynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n gwarantu adfer rhywogaethau.






Dyma ragor am ddau o'n pencampwyr sy'n gwneud eu rhan i sicrhau bod polisïau amaethyddiaeth Cymru y dyfodol yn darparu ar gyfer rhywogaethau.



## MABON AP GWYNFOR, PENCAMPWR Y CLIRADAIN GYMREIG

Mae Mabon ap Gwynfor, AS Plaid Cymru, Dwyfor Meirionnydd, yn bencampwr rhywogaethau brwd sydd eisiau codi mwy o ymwybyddiaeth o'r gwyfyn Cliradain Gymreig sy'n hedfan yn ystod y dydd. Ymunodd â Chadwraeth Gloÿnnod Byw yn safle'r RSPB yn Llyn Efyrnwy ym mis Gorffennaf 2022 i grwydro ymysg y coed bedw gwasgaredig, i'w denu, nodi tyllau sy'n dod i'r golwg a chanfod achosion chwilerol. Fel rhywogaeth sy'n cael ei bygwth gan golli gynefinoedd, newid rheolaeth tir a newid hinsawdd, buom yn trafod y manteision y gall polisïau amaethyddol newydd Cymru eu cyflwyno i rywogaethau fel y Gliradain Gymreig – yn enwedig gyda'r angen am adfywio bedw ac amrywiaeth o ddosbarthiadau oed coed. Awgrymodd Mabon yr angen i ymgysylltu â'r gymuned ehangach am y rhywogaeth hon i sicrhau bod eu poblogaethau'n cael eu hamddiffyn a'u hehangu. Diolch i Mabon am ei ddiddordeb yn y rhywogaeth ddiddorol hon.

## MARK ISHERWOOD, PENCAMPWR Y GYLFINIR

Mae Mark Isherwood yn hyrwyddwr hynod o frwd ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i hybu cadwraeth y gylfinir yng Nghymru. Mae'n mynychu cyfarfodydd Gylfinir Cymru ac yn manteisio ar bob cyfle posib i roi cefnogaeth iddynt a hyrwyddo eu negeseuon. Mae wedi ymweld â prosiect Cri'r Gylfinir / Curlew LIFE ddwywaith gerllaw Ysbyty Ifan a Hiraethog – yr eildro ym mis Mehefin 2022 pan welodd y gylfinirod wrthi'n brysur yn cadw ysglyfaethwyr posib draw oddi wrth eu nythod ac wrth i'r cywion fforio am fwyd. Clywodd hefyd yn uniongyrchol wrth Wil, un o ffermwyr y prosiect, am yr hyn y mae'n ei wneud i warchod y gylfinirod sy'n bridio ar ei dir. Diolch i Mark a phopeth mae'n ei wneud dros y gylfinir yng Cymru. Gallwch ddarllen mwy am brosiect Cri'r Gylfinir fan hyn.



# Achubwch ein Pysgod!

## Cynhaliodd ein Pencampwyr Eog a Sewin ddigwyddiad ar y cyd yn y Senedd ynglŷn â'r gostyngiad ym mhoblogaethau'r pysgod hyn ym mis Hydref.


**Gan Liz Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru**

Gyda chymorth eu noddwyr rhywogaethau - Wild Fish, Afonydd Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru – cynhaliodd Huw Irranca Davies a Cefin Campbell drafodaeth gydag arbenigwyr ynglŷn â pham y mae ein heog a'n sewin yn dirywio. Gallwch weld rhai uchafbwyntiau a chlipiau o'r digwyddiad ar Twitter fan hyn.

Amlinellodd Dr Nigel Milner a'r Athro Carlos Garcia de Leaniz yr achosion am y gostyngiad, gyda cholli cynefinoedd, rhwystrau afonydd a llygredd amaethyddol i gyd yn ffactorau arwyddocaol. Er bod llai y gallwn ei wneud am ffactorau sy'n cyfyngu ar oroesiad yn y môr, gallwn wneud mwy i fynd i'r afael â phroblemau mewn dŵr croyw. Er enghraifft, mae'r erthygl ddiweddar - 'Challenges and benefits of restoring river connectivity'- yn nodi manteision tynnu argaeau. Nôl ym mis Mai 2021, aethom â Huw a Cefin i weld rhwystr pysgod yn cael ei dynnu o fewn prosiect






Afonydd Cymru yn yr Afon Honddu, gan osod ecosystem yr afon yn ôl at ei gilydd.

Yn y digwyddiad, roeddem wrth ein bodd bod Prif Ymgynghorydd Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Dr Ben Wilson, wedi ymuno â ni i amlinellu eu Cynllun Gweithredu ar gyfer Eog a Sewin, er, yn anffodus, nid yw'n cael digon o effaith i wrthdroi'r gostyngiadau cyflym ym mhoblogaethau'r pysgod hyn. Heb newid ein ffordd o weithredu, fe allai'r rhywogaethau hyn ddiflannu'n gyflym. Yn ystod ein trafodaeth banel, pwysleisiodd pysgotwyr, cadwraethwyr a pherchnogion pysgodfeydd eu parodrwydd i helpu a chydweithio â'r holl bartneriaid i fynd i'r afael â hyn.

Nodwyd mwy o bwyslais ar ddatblygu a darparu adnoddau ar gyfer Partneriaethau Dalgylch – sy'n arwain at reolaeth fwy gweithredol – fel cam nesaf cynhyrchiol. Yna

byddai gan CNC fwy o adnoddau i ganolbwyntio ar reoleiddio, gorfodi ac atal llygredd, tra'n galluogi darpariaeth gan bartneriaid sydd eisoes yn gweithio o fewn y dalgylchoedd hynny. Yn y cyfamser, mae CNC yn symud ymlaen â dadansoddiadau manwl a chyflym o ddata stoc cyfredol i geisio nodi pa ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar oroesiad eog a sewin dŵr croyw.

Mae'r camau nesaf yn mynd rhagddynt ac mae CNC wedi cadarnhau y bydd yn adolygu'r Cynllun Gweithredu yn 2023.








## Suo o gwmpas gyda Delyth!

**Gan Darryl Cox, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn**

Ni wastraffodd Delyth Jewell unrhyw amser yn ei gweithred gyntaf fel Pencampwr Rhywogaethau ar gyfer y gardwenynen feinllais nôl yn 2021, pan ymbiliodd yn angerddol yn y Senedd ar Lywodraeth Cymru i ddatgan argyfwng natur ac i osod targedau adfer natur sy'n gyfreithiol rwymol. Croesawyd ei galwadau gan Lywodraeth Cymru, a gytunodd, i wneud Cymru yn un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i gydnabod difrifoldeb y sefyllfa i'n byd naturiol.

Yn dilyn hynny, mae Delyth wedi treulio amser yn ystod toriadau'r haf yn ymweld â Gwlypdiroedd Casnewydd gyda staff yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn. Rhoddodd yr ymweliadau hyn gyfle i Delyth weld y gardwenynen feinllais â'i llygaid ei hun, ac i ddysgu am y strategaeth 10 mlynedd i wneud yn siŵr nad yw'n diflannu am byth, y gwaith sydd ei angen a'r prosiectau cyffrous sydd ar y gweill.



Yn Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, rydym wedi cael ein cyffroi gan angerdd a chwilfrydedd Delyth ac rydym mor ddiolchgar i gael pencampwr rhywogaethau sydd â diddordeb go iawn i ddysgu am effeithiau'r dirywiad mewn peillwyr a beth sydd angen ei wneud i helpu. Ym mis Mai 2022, defnyddiodd Delyth ei slot yn y Datganiad Busnes i godi ymwybyddiaeth o No Mow May, menter o dan arweiniad Plantlife, sy'n ceisio cael pawb i gymryd camau syml i helpu peillwyr. Weithiau, mae'r atebion yn ein gerddi ein hunain! Defnyddiodd hi'r foment honno hefyd i dynnu sylw at bwysigrwydd prosiectau natur cydweithredol mawr fel y prosiect Natur am Byth sydd ar y gweill ar gyfer cadwraeth rhywogaethau llwyddiannus.

Pan ofynnwyd beth oedd bod yn Bencampwr Rhywogaethau yn ei olygu iddi, dywedodd Delyth: "Mae bod yn bencampwr rhywogaethau yn brofiad gwylaidd a gwerth chweil – mae wedi agor fy llygaid i ba mor werthfawr yw harddwch ein byd naturiol a'n holl rywogaethau a chynefinoedd godidog. Ond mae hefyd wedi atgyfnerthu pa mor ansefydlog yw eu goroesiad. Rydw i wedi caru natur ers amser maith ond mae'r rôl hon wedi dyfnhau fy mhenderfyniad i warchod a chryfhau ein hamgylchedd naturiol. Mae'n fraint bod yn bencampwr rhywogaethau ar gyfer y gardwenynen feinllais – un o'r cacwn sydd fwyaf dan fygythiad - ac mae wedi bod yn gymaint o bleser i ddysgu mwy am y creadur anhygoel hwn, ac i gwrdd â phobl eraill sy'n poeni am ei warchod."



Eisoes yn 2023, a sbardunwyd gan astudiaeth ddiweddar a nododd fod y gostyngiad byd-eang mewn peillwyr yn cyfrannu at 500,000 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn, cododd Delyth y mater o warchod peillwyr yn y Senedd unwaith eto, gan annog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i flaenoriaethu peillwyr drwy gynlluniau ffermio cynaliadwy sydd wedi'u hariannu'n dda ac i fynd i'r afael â'r defnydd o blaladdwyr.

## BETH YW'R PROSIECT PENCAMPWR RHYWOGAETHAU?



Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn gweithio gyda'n haelodau eNGO unigol i recriwtio Aelodau o'r Senedd fel Pencampwr Rhywogaethau, i noddi bywyd gwyllt sydd mewn perygl. Mae'n rhaid gallu dod o hyd i'r rhywogaeth yn eu hetholaeth ac ar ryw fath o restr o rywogaethau sydd mewn perygl, fel Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd neu Restr Goch ryngwladol.

Drwy ymrwymo i fod yn Bencampwr, gall Aelodau o'r Senedd ddysgu am y rhywogaethau a beth sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Yr aelodau sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yw: RSPB, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Wild Fish, Afonydd Cymru, Buglife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, Plantlife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Cadwraeth Gloÿnnod Byw, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chadwraeth Morfilod a Dolffiniaid.

*Diolchiadau lluniau: Puffin, t1 gan James Armes ar Unsplash; Ymweliadau â thegeirianau, t2 gan Lizzie Wilberforce; ymweliad Mabon, t5 gan Clare Williams; ymweliad Cri'r Gylfinir, t5 gan RSPB Cymru; ymweliad a digwyddiad pysgod, t6-7 gan Liz Smith; ymweliad Delyth, t7-8 gan Claire Fidler.*